Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Teithlen y Brifddinas: y safleoedd hanesyddol hanfodol ar gyrion Caerdydd

Os ydych chi'n treulio ychydig ddyddiau yn y brifddinas, mae yna nifer fawr o safleoedd hanesyddol yn yr ardal y mae'n rhaid ichi eu gweld.

Ychydig dros ugain munud yn y car o ganol Caerdydd gallwch weld Castell Caerffili, lle mae un tŵr yn fwy cam na thŵr Pisa, neu gallwch weld nenfydau a dodrefn anhygoel y rhyfeddol Gastell Coch. Ychydig ymhellach i mewn i'r Cymoedd gallwch grwydro Safle Treftadaeth Byd Gwaith Haearn Blaenafon, neu brofi bywyd Rhufeinig ym Maddonau Rhufeinig Caerllion. Rydych yn siŵr o gael diwrnod allan i'w gofio...

1

Castell Caerffili

Castell Caerffili yw'r castell mwyaf yng Nghymru. Er nad yw'n gwbl gyflawn, un drawiadol iawn yw'r gaer eiconig, yng nghanol cyfres o ffosydd dŵr ac ynysoedd. Syniad Gilbert 'Goch' de Clare, bonheddwr pengoch o dras Normanaidd, yw'r castell er bod ei ymdrechion cyntaf i'w godi wedi'u hatal gan Lywelyn ap Gruffydd. Yn y pen draw llwyddodd Gilbert i greu'r gaer anferth gan ddefnyddio'r system amddiffynnol gonsentrig o waliau o fewn waliau. Dringwch i frig to porthdy anferth y dwyrain, ac oddi yno cewch weld y cylchoedd amddiffynnol o feini a dyfroedd a drodd Gaerffili yn gaer mor gadarn. Darganfyddwch tramwyfa dywyll Oriel Brewys a chadwch lygad am dŵr y de-ddwyrain - sy'n fwy cam na thŵr enwog Pisa - a'r peiriannau gwarchae enfawr a'r digwyddiadau arbennig pan fydd y rheiny'n cael eu tanio. Mae'r castell yn gefnlen boblogaidd i ffilmiau a rhaglenni teledu gan gynnwys Doctor Who.

2

Castell Coch

Ar ochr arall Mynydd Caerffili, lai na phymtheg munud i ffwrdd, fe welwch chi **Gastell Coch** yng nghanol y coed. Mae Castell Coch yn sefyll ar sylfeini hynafol castell cynharach a godwyd gan de Clare, ond mae'n gymharol fodern, yn gynnyrch dychymyg byw oes Victoria. Rhoddodd trydydd Ardalydd Bute rwydd hynt i William Burges greu encilfa wledig yn gymar i'w brif gartref moethus, Castell Caerdydd. Mae adnoddau aml-synhwyrol yn sicrhau ei bod yn hawdd archwilio'r castell Gothig ei arddull o gyfnod Victoria, sy'n deillio o weledigaeth ramantaidd o'r Oesoedd Canol.

3

Gwaith Haearn Blaenafon

Ychydig yn llai nag awr mewn car o Gaerdydd, y Cymoedd yw cartref **Gwaith Haearn Blaenafon**, y Safle Treftadaeth Byd enwog. Bu'r gwaith haearn yn garreg filltir yn hanes y Chwyldro Diwydiannol ac ar y pryd roedd ym mlaen y gad o ran technoleg newydd. Cafodd pŵer stem ei harneisio a chafodd dull newydd o greu dur o fwyn haearn ei ddatblygu, gan arwain at ffyniant byd-eang yn y diwydiant dur, a chodi grym diwydiannol Cymru i lefel newydd. Gall ymwelwyr â'r safle weld y bythynnod yn Stack Square sydd wedi'u hadnewyddu ac ail-gread o siop drwco'r cwmni, ac mae'r dechnoleg sain ddiweddaraf yn helpu i ddod â'r gwaith haearn yn fyw mewn modd cwbl newydd. Mae'r tirlun o amgylch hefyd yn chwyldroadol o ran ei ffurf a'i swyddogaeth. O byllau glo i linellau rheilffordd, mae'n dal yn bosibl olrhain y llwybrau i mewn ac allan, o'r deunyddiau crai i'r cynnyrch gorffenedig.

Teithlen y Brifddinas:
y safleoedd hanesyddol hanfodol ar gyrion Caerdydd

4

Caer a Baddonau Rhufeinig Caerllion

O Gaerdydd ewch i'r dwyrain ar yr M4 tuag at Gasnewydd, ac o fewn 30 munud byddwch yn cyrraedd **Caer a Baddonau Rhufeinig Caerllion**. Caerllion yw un o'r safleoedd Rhufeinig mwyaf amrywiol a gwefreiddiol ym Mhrydain, gan gynnwys caer a baddonau, amffitheatr a rhes o farics; yr unig enghreifftiau yn Ewrop ar hyn o bryd. Mae'r gweddillion sydd i'w gweld yng Nghaerllion, sy'n cynnwys ystafelloedd newid wedi'u gwresogi, detholiad o faddonau oer a poeth, ystafelloedd ymarfer o dan do a hyd yn oed pwll nofio awyr agored, yn awgrymu y gallai bywyd y Rhufeiniaid fod yn ddigon cysurus a moethus. Ar ôl ymlacio yn y baddonau, mae'n debyg y byddai'r Rhufeiniaid yn mynd i'r amffitheatr gerllaw i fwynhau'r gornestau gwaedlyd rhwng bwystfilod rheibus a gladiatoriaid yn brwydro hyd y diwedd!

I wybod am y storïau a'r bobl y tu ôl i'n 128 o safleoedd hanesyddol, ewch i cadw.cymru.gov.uk.
Hoffwch Cadw ar Facebook a dilynwch @cadwcymru ar Twitter i gael y newyddion diweddaraf.

Rhyw 15 munud yw amser y siwrnai o Gaerdydd i Gastell Coch, 20 munud i Gaerffili, 30 munud i Gaerllion a 45 munud i Flaenafon.